**Ken Skates AS/MS**
**Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru**
**Minister for Economy, Transport and North Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref KS/02635/20

Russell George AS
Aelod o'r Senedd ar gyfer Sir Drefaldwyn
Cadeirydd, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau

SeneddEIS@assembly.wales

1 Mehefin 2020

Annwyl Russell,

Rwy'n ysgrifennu atoch i ddiolch i chi am y cyfle i fynychu eich sesiwn Busnes a Chefnogi Swyddi COVID-19 ar 11 Mai 2020. Cytunais yn ystod y sesiwn i ysgrifennu atoch er mwyn rhoi rhagor o fanylion ynghylch y materion canlynol.

O safbwynt pwynt 1, amgaeaf y llythyr a anfonwyd gennyf i a'r Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd at y Canghellor yn gynharach y mis hwn.

O safbwynt pwynt 2, nid oes unrhyw dystiolaeth sy'n profi bod gweithwyr siopau wedi bod o dan anfantais mewn unrhyw ffordd o safbwynt gallu siopa am fwyd. Ar wahân i rai eithriadau yr unig siopau sydd wedi bod ar agor yw manwerthwyr bwyd ac mae gan y rhain drefniadau sy'n galluogi'r staff i brynu bwyd ganddynt. Golyga hyn nad oes angen unrhyw drefniant arbennig ac ychwanegol ar eu cyfer.

O safbwynt pwynt 3, cyhoeddwyd y Cynllun Cadernid ar gyfer y Sector ôl-16 ar 20 Mai. Dyma ddolen i'r adroddiad:

https://llyw.cymru/cynllun-cadernid-ar-gyfer-y-sector-ol-16-coronafeirws

https://gov.wales/resilience-plan-post-16-sector-coronavirus

Yn gywir

**Ken Skates AS/MS**
Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru
Minister for Economy, Transport and North Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.